

Yr Ysgol Sul

Darlleniad: Diarhebion 22

Gweddi ar ddechrau'r Ysgol Sul

Deuwn atat yn llawen,
ein Harglwydd byw,
ein hathro bendigedig.

Deuwn yn deulu,
yr ifanc yn ymelwa ar ffrwyth profiad yr hen,
a'r hen yn derbyn her ffresni ac egni'r ifanc.

A phawb ohonom yn derbyn gennyt drysor dy Air.

Hyfryd eiriau yn ein hadeiladu,
dwysbigo,
cysuro,
puro,
goleuo ac ysbrydoli.

Arwain ni, bawb sy'n dysgu a phawb a ddysgir. Arwain ni, yn blant a phobl ifainc a rhai hŷn, i chwilio, trin a thrafod, ond yn bennaf oll i fwynhau dysgu gennyt ac amdanat. Amen.

Gweddi ar derfyn yr Ysgol Sul

Deuwn atat, Arglwydd, ar derfyn y cyfnod hwn yng nghwmni ein gilydd i gydnabod ein diolch am yr arweiniad a gawsom ac am y paratoi a fu ar ein cyfer. Diolch am gwmni cyfeillion, am y parodrwydd i rannu a goddef syniadau gwahanol ac amrywiaeth barn; a'r cyfan yn gymorth inni i gyd i ddeall yn well dy Air a'th ewylllys ar ein cyfer. Ac mewn byd lle mae cymaint yn chwilio, mewn cymdeithas lle mae cymaint o gwestiynau'n cael eu holi a chyn lleied o atebion yn cael eu cynnig, boed i'r gwefusau sydd wedi datgan dy glod fynd allan bob amser gan gyffesu dy wirionedd.

Boed i'r clustiau a glywodd y gwirionedd amdanat fynd allan a gwranddo'n feunyddiol am yr hyn sy'n dda, yn gywir ac yn wir. Boed ein bywydau, sydd wedi eu cysegru i ti, fod bob amser yn deilwng ohonot ac yn cael eu byw er clod a gogoniant i'th enw mawr. O! Dduw bendigedig, clyw ein gweddi. Amen.

Gweddi gyffredinol dros yr Ysgol Sul

Diolchwn i ti, ein Tad a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, am orffennol yr Ysgol Sul. Diolchwn am Griffith Jones, Llanddowror a Thomas Charles o'r Bala. Diolchwn am i bobl gynt drwy gyfrwng yr Ysgol Sul ddarganfod yn y geiriau y GAIR.

Ac wrth ddiolch i ti am ddoe, am yr hyn fu'r Ysgol Sul, cyflwynwn i ti weithgarwch y presennol. Diolchwn am waith Cyngor yr Ysgolion Sul, a'r athrawon hynny sy'n dysgu ac yn hyfforddi plant, pobl ifainc ac oedolion yn dy Air o Sul i Sul.

Ac os ydym heddiw'n gweddio ac yn gweithio yn unol â'th ewyllys di ac o dan arweiniad dy Ysbryd, os gweli'n dda, boed dy fendith ar ddyfodol yr Ysgol Sul. Boed i'r had a heuir heddiw ddwyn ffrwyth yfory. Er gogoniant i'th enw. Amen.

Owain Llyr Evans